

Eisteddfod Powys 2026

Beirniadaeth Cystadleuaeth Tlws y Dysgwyr

Beirniad – Sue Hyland

Eleni, roedd y thema yn un hunan ddewisiad a gofynwyd am ddau ddarn o waith gwreiddiol. Daeth pump ymgais i law a roedd y safon yn arbennig o dda. Fel dysgwr fy hun, dw i'n gwybod pa mor anodd yw ysgrifennu mewn ail iaith yn gallu bod, enwedig yn Gymraeg!

Mae'r Gath Ddu wedi sgwennu am Ras Cefn y Draig, a phob lwc iddi hi neu iddo fo, achos maen nhw'n cymryd rhan yn y ras eleni.

Mae'r ail ddarn yn siarad am "Hi" a "Fo". Mae "Hi" yn cwyno am ei chariad – mae o wedi tyfu barf twp, yn disgwyl iddi wneud popeth drosto fel tacluso ar ei ôl a choginio. Mae "Fo" ar y llaw arall yn meddwl bod hi'n wraig tŷ go iawn, gwneud popeth iddo a mai "Hi" yw'r un . Difyr iawn.

Adolygiad diddorol o lyfr o'r gyfres Amdani sydd gan Sali Wali – Ugain o Arwyr Cymru. Mae hi'n gallu argymhell y llyfr yn fawr i ddysgwyr sydd â diddordeb mewn hanes Cymru.

Ail ddarn Sali Wali yw llythr at reolwr gwesty , yn cwyno am eu stafell a gofyn am ad-daliad. Roedd y lifft rhy gyflym, y carped rhy batrymog, y tywelion yn y stafell molchi rhy flewog. Ond yn y diwedd, mae hi eisiau bwcio yr un stafell blwyddyn nesa i wyllo'r Tour de France trwy'r ffenest! Doniol iawn.

Sgwennodd Cefyl Gwyn ddau ddarn disgrifiadol iawn am fyd natur. Podlediad 'Fy Mro', am Dyffryn Tanat, a darn sy'n disgrifio cartref Ceffyl Gwyn, sef hen ysgubor o'r ddeunawfed ganrif. Yn y podlediad, roedd hi'n amlwg bod Dyffryn Tanat yn agos at galon Ceffyl Gwyn. Dros y blynyddoedd, mae'r ysgubor wedi cael llawer o ddefnyddiau

gwahanol. Wedi bod yn gartref i ffermwyr, gwehyddion, gwartheg ond rŵan mae 'na denantiaid gwahanol – ystlumod a gwenoliaid. Pleser oedd darllen y gwaith hwn.

Daeth dau ddarn hollol wahanol gan Edn Pincen. Mae'r darn cyntaf yn disgrifio cymeriadau mewn Clwb Cymraeg ar ddechrau'r tymor newydd – pobl fel Niwrotig Nansi , sy'n poeni am bethau sy ddim wedi digwydd eto ac wastad yn hwyr. Malcolm, sy'n cael trafferth efo adlais ei declyn cliw . Tomos y Tegan Llanci efo biceps yn byrstio allan o fest wen denau (siomedig mod i erioed wedi cael Toy Boy yn fy nosbarth i ...) . A chegog Sali Saesneg 'Helo, Sali dw i, 72 but still going strong – sorry don't know how to say that in Welsh. Excuse the English but my Welsh is rubbish....' Dw i'n siwr bod bob tiwtor a dysgwr wedi cael profiadau tebyg!

Mae'r awdur wedi anfon neges i ni yn yr ail ddarn trwy ddefnyddio symbolaeth y fflamingo pinc. Mae wedi defnyddio iaith gyfoethog drwyddi draw efo ystod eang o eirfa ac yn gorffen efo cyngor "Dach chi'n gryf. Dach chi'n bwerus. Dach chi'n ddigon. Meddwl Pinc. Hedfan yn uchel. A wastad byddwch yn ffabiwlys." Dau ddarn o waith ardderchog.

Mae'r ddau ddarn gan AP James yn llawn o hiwmor. Nefi wen, yn y darn cyntaf, mae rhywun wedi dwyn Cadair Eisteddfod Powys a gwaeth fyth rhywun enwog oedd y troseddwr! Ar yr un pryd, mae 'na grŵp ymgyrchu o Lannau Mersey 'Lerpwl Eisteddfodau Mawr am Byth Oce!!', neu LEMBO yn fyr, sy eisiau symud yr Eisteddfod Genedlaethol yn barhaol o Gymru i Ddoc Albert, Lerpwl.

Sgwrs ar y ffôn yw'r ail ddarn gan AP James, sgwrs rhwng Cerys o Gyrchfannau Moethus Ynysoedd sy'n ffonio Sian i ddweud bod hi wedi ennill gwyliau moethus am ddim. Mae deialog ddoniol iawn yn dilyn. Pethau fel ' Gellir cymryd y gwyliau unrhyw bryd yn ystod y

deuddeg mis nesa ac eithrio : y Nadolig, Y Flwyddyn Newydd, Y Pasg, gwyliau banc, gwyliau ysgol, wythnosau brig, lleuad llawn a llanw uchel.' Yn y diwedd, mae Sian druan yn mynd ym mis Ionawr ond does dim byd yn dod am ddim fel arfer ac mae'r stori yn gorffen efo tro yn y cynffon.

Wel, dyna ni. Mi hoffwn i ddweud diolch yn fawr i'r pum cystadleuydd am eu gwaith gwyb, er mae o wedi bod mor anodd i wneud penderfyniad a dw i wedi cael nosweithiau heb gwsg yn meddwl am y peth.

Ond y person sy'n haeddu Tlws y Dysgwyr Eisteddfod Powys eleni yw

Ap James